

# Llwybr Arfordir Sir Benfro:
## Arolwg Busnes 2024


**Julie Hollingsworth, Cyfarwyddwr Cyswllt**
jhollingsworth@djsresearch.com

**Clare Rapkins, Uwch-reolwr Ymchwil**
crapkins@djsresearch.com

**Emily Ward, Uwch-swyddog Gweithredol Ymchwil**
eward@djsresearch.com


Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

djs research

# Cynnwys

03 Cefndir a Methodoleg

06 Proffiliau busnes

11 Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau

17 Ansawdd y llwybr

19 Hyrwyddo'r llwybr

31 Casgliadau ac argymhellion

# Cefndir a Methodoleg



Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

djs research

# Cefndir a Methodoleg

## Prif nod yr arolwg hwn yw gwella dealltwriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill o'r cymorth sydd ei angen ar fusnesau i fanteisio i'r eithaf ar eu lleoliad a'r cyfleoedd a gyflwynir gan lwybrau pellter hir Cymru, sef Llwybr Arfordir Cymru (gan gynnwys Llwybr Arfordir Sir Benfro), Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a Llwybr Cenedlaethol Glyndŵr.

Ar y cyfan, mae'r amcanion yn ymwneud â'r holl lwybrau pellter hir; fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar effaith **Llwybr Arfordir Sir Benfro**.

## Mae'r amcanion allweddol yn cynnwys:

- Nodi'r mathau o fusnesau sy'n gweithredu ar y llwybrau neu'n agos atynt.
- Deall y gwasanaethau a ddarperir gan fusnesau sy'n agos at y llwybrau.
- Asesu'r buddion y mae'r llwybrau'n eu rhoi i fusnesau, gan gwmpasu incwm uniongyrchol ac anuniongyrchol a gynhyrchir dros wahanol dymhorau.
- Gwerthuso lefel y cydweithio ymhlith busnesau ar hyd y llwybrau.
- Gofyn am farn ar faterion megis argaeledd cludiant cyhoeddus, gweledd, hygyrchedd, arwyddion, marchnata, cefnogaeth, ac unrhyw heriau neu rwystrau sy'n gysylltiedig â'r llwybr.
- Archwilio'r diddordeb a'r gefnogaeth ar gyfer sefydlu porth busnes pwrpasol ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru.
- Hwyluso cymhariaeth ag arolygon blaenorol a gynhaliwyd ar yr un pwnc lle bo hynny'n bosibl neu'n berthnasol.



Cynhaliwyd yr arolwg hwn drwy gyfweliadau ffôn â chymorth cyfrifiadur (CATI). Er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn gynhwysol ac yn hygyrch, darparwyd opsiwn ar-lein hefyd.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr arolwg, roedd yn rhaid i fusnesau naill ai ystyried eu hunain yn agos at un o'r llwybrau pellter hir (o fewn pellter cerdded neu daith car fer) neu ddatgan eu manteision busnes o un o'r llwybrau mewn rhyw ffordd.

Ar y cyfan, roedd ychydig dros fil o fusnesau yn rhan o'r arolwg, ac roedd **153** ohonynt wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Sir Benfro, ar y sail mai dyna oedd eu llwybr agosaf neu'r un yr oeddent yn cael y budd mwyaf ohono. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y busnesau hynny yn unig.

I gael manylion llawn y fethodoleg, gweler Arolwg Busnes Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol 2024 (adroddiad cyffredinol).

# Canllaw i'r adroddiad hwn

## Talgrynnu

Cyflwynir y canlyniadau yn yr adroddiad hwn fel rhifau cyfan er hwylustod darllen a dehongli. Bydd talgrynnu yn digwydd yng ngham olaf y cyfrifiad er mwyn sicrhau'r cywirdeb gorau posibl. Felly, pan gyflwynir canlyniadau fel % positif, % niwtral neu % negatif, efallai y bydd achosion lle na fydd y canlyniadau'n rhoi cyfanswm o 100%. Ni ddylai'r gwahaniaethau fyth amrywio yn ôl +/-1% pwynt.

## Meintiau sylfaen

Sylwch, y meintiau sylfaen sydd wedi'u cynnwys yw cyfanswm y bobl a ymatebodd i gwestiwn penodol. Gan nad yw pawb wedi ateb pob cwestiwn, gall y sylfaen ar gyfer cwestiynau unigol fod yn is na chyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd i'r arolwg, ac a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro (153).

## Diffiniad o lwybr 'a neilltuwyd'


Ar ôl ateb cyfres o gwestiynau sgrinio i bennu agosatrwydd (S02a, S02b) a phwysigrwydd llwybrau i fusnesau unigol (S03, C01 a C02), neilltuwyd llwybr i fusnesau a gofynnwyd iddynt ymateb i weddill cwestiynau'r arolwg yn seiliedig ar eu llwybr 'penodedig'. Mewn achosion lle'r oedd busnesau wedi'u lleoli'n agos at neu'n elwa ar fwy nag un llwybr, cawsant eu neilltuo i'r un a) a oedd yn cynhyrchu'r gyfran uchaf o werthiannau/trosiant neu b) y maent yn fwyaf dibynnol arno ar gyfer eu busnes.

## Cymhariaeth â gwerthoedd 'cyfanswm'

Yn yr adroddiad hwn, mae canlyniadau Llwybr Arfordir Sir Benfro yn cael eu cymharu â'r ffigurau cyfartalog o gyfanswm y sampl ar gyfer pob llwybr. Mae cyfanswm y sampl yn cynnwys busnesau sy'n gysylltiedig â Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr Arfordir Sir Benfro, Llwybr Clawdd Offa a Llwybr Cenedlaethol Glyndŵr. Mae'r cyfartaledd cyfun wedi'i labelu fel "Pob llwybr a arolygwyd" yn y siartiau cymharu.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar fusnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Sir Benfro yn unig.

# Proffiliau Busnes



Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS


Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

djs research


# Proffiliau busnes (I)

Mae 65% o'r 153 o fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro yn y sectorau llety neu fanwerthu, o gymharu â thua hanner ar gyfartaledd.

## Sector




## Math o sefydliad





**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro (153).**C05B.** Pa un o'r canlynol sy'n crynhoi gweithgareddau eich prif fusnes neu sefydliad orau? **C01.** Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch busnes neu sefydliad orau?


# Proffiliau Busnes (II)

Mae'r rhan fwyaf o'r busnesau ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro yn cyflogi llai na 50 aelod o staff. Hefyd, mae gan 53% o fusnesau drosiant o £200,000 neu lai.

## Maint y busnes




## Trosiant





**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro (153).**C07A/B.** Gan gynnwys eich hun, faint o staff llawn amser a rhan amser parhaol a gyflogir gan eich busnes neu sefydliad? **C02**. Beth oedd trosiant bras eich busnes (neu werth gwerthiant) yn eich blwyddyn ariannol ddiwethaf?


# Proffiliau busnes (III)

Mae 50% o fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro wedi'u sefydlu ers 20+ mlynedd, ac mae'r rhan fwyaf wedi'u lleoli mewn un lleoliad yng Nghymru (87%).

## Nifer y safleoedd




## Daliadaeth y busnes





**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro (153).**C06.** A yw eich busnes neu sefydliad yn gweithredu o un lleoliad neu eiddo, neu leoliadau neu adeiladau lluosog? **C04.** Oddeutu pa mor hir mae eich busnes neu sefydliad wedi bod yn gweithredu o'r lleoliad hwn?


# Proffiliau busnes (IV)

Mae 78% o fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro ar agor drwy gydol y flwyddyn. Er mai'r haf yw'r tymor prysuraf fel arfer, dywed 19% o fusnesau fod eu gweithgarwch yn parhau'n gyson trwy gydol y flwyddyn.

## Busnes ar agor drwy'r flwyddyn




## Tymor brig




**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro (153).**C09a.** A yw eich busnes neu sefydliad ar agor drwy'r flwyddyn? **C09B**. A oes yna dymor neu amser penodol o'r flwyddyn pryd y mae'r defnydd o'ch cynhyrchion neu wasanaethau ar ei uchaf o ganlyniad i Lwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol?

# Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau



Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS


Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

djs research

# Proffiliau busnes – yn benodol i'r llwybr

Mae 66% o fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro yn cael rhyw fath o fudd o fodolaeth y llwybr. Mae'r llwybr hefyd yn cael ei ystyried yn 'bwysig iawn' i 29% o'r busnesau hyn, bron ddwywaith y cyfartaledd.

**Pwysigrwydd y llwybr i lwyddiant busnesau**





**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Penfro (153). **C02**. Sut byddech chi'n disgrifio pwysigrwydd Llwybr Arfordir Sir Benfro i lwyddiant eich busnes neu sefydliad?

# Proffiliau busnes – yn benodol i'r llwybr

Mae 40% o fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro yn dweud bod presenoldeb y llwybr wedi cynhyrchu 1-10% o'u gwerthiant neu drosiant. Dywed 23% arall o fusnesau fod 11-25% o'u trosiant yn cael ei gynhyrchu gan y llwybr. Yn y cyfamser, mae 10% yn priodoli o leiaf hanner eu hincwm i bresenoldeb y llwybr.

**Canran y gwerthiannau neu drosiant a gynhyrchir gan ddefnyddwyr y llwybr neu fodolaeth y llwybr**





**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro (153).**C03.** Pa ganran o'ch gwerthiant neu drosiant a gynhyrchir gan ddefnyddwyr Llwybr Arfordir Sir Benfro neu y gellir ei phriodoli i'w fodolaeth mewn rhyw ffordd?


# Manteision y llwybr i fusnesau

Mae 62% o fusnesau'n cytuno bod presenoldeb Llwybr Arfordir Sir Benfro wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr â'u sefydliad, gyda 56% arall yn nodi ei fod wedi bod o fudd i'w gwerthiant neu drosiant.

## Budd i fusnesau





## Maint y budd (% o'r rhai a ddywedodd fod hyn wedi cael effaith ar yr agweddau hyn)




**Sylfaen:** Pob ymatebydd a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro (153) **C24a.** Ydych chi'n meddwl bod presenoldeb Llwybr Arfordir Sir Benfro wedi arwain at neu wedi cyfrannu at unrhyw un o'r canlynol ar gyfer eich busnes neu sefydliad? **Sylfaen:** Lle mae effaith ar bob un yn C024a_4-6/1 (Mae maint y sylfaen yn amrywio yn ôl datganiad) **C24b.** I ba raddau mae presenoldeb Llwybr Arfordir Sir Benfro wedi effeithio ar y canlynol? *Sylwer – ni ddangosir labeli data <5% er taclusrwydd. ** RHYBUDD – maint sylfaen isel

# **Manteision y llwybr i fusnesau**– yn erbyn y cyfanswm

Mae 71% o fusnesau yn nodi eu bod wedi profi rhywfaint o fudd o fodolaeth y llwybr. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd (48%). Mae Llwybr Arfordir Sir Benfro yn cael effaith gadarnhaol sylweddol fwy ym mhob maes a astudiwyd o gymharu â busnesau ar gyfartaledd, ac eithrio cyflwyno cynhyrchion neu wasanaethau newydd.





**Sylfaen:** Pob ymatebydd a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro (153) **C24a.** Ydych chi'n meddwl bod presenoldeb Llwybr Arfordir Sir Benfro wedi arwain at neu wedi cyfrannu at unrhyw un o'r canlynol ar gyfer eich busnes neu sefydliad?


# Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau

Mae 24% o fusnesau'n cytuno y bydd Llwybr Arfordir Sir Benfro yn dod yn bwysicach i'w llwyddiant yn y dyfodol. Mae cyfran uwch na'r cyfartaledd o'r rhai sy'n credu y bydd y llwybr yn dod yn bwysicach yn nodi mai'r rheswm am hyn yw y bydd yn arwain at fwy o bobl yn ymweld â'r ardal ac yn aros ynddi (41% o gymharu â 23% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd).

**Newid ym mhwysigrwydd y llwybr i lwyddiant busnes neu sefydliad**




**Pam?***




"Os ydyn nhw'n datblygu ymwybyddiaeth, bydd yn helpu i ddenu mwy o ymwelwyr, felly byddwn ni'n elwa ac yn ei draws-hyrwyddo."

"Wel mae gan lawer o bobl, yn enwedig ar ôl y cyfnod clo, ddiddordeb mewn darganfod Cymru. Rydyn ni wedi gweld ymchwydd, nid yn unig o Gymru a Lloegr ond y tu allan i'r wlad, o bobl sydd eisiau archwilio'r llwybrau, cynnydd o un flwyddyn i'r llall yr ydym wedi sylwi arno ers y cyfnod clo. Rwy'n gobeithio na fydd pethau'n newid pan fyddant yn cynyddu'r dreth dwristiaeth."

**Sylfaen:** Pob ymatebydd a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro (153) **C25a.** A ydych yn ystyried y bydd unrhyw newid yn y dyfodol ym mhwysigrwydd Llwybr Arfordir Sir Benfro i lwyddiant eich busnes/sefydliad? **Sylfaen:** Lle y bydd y llwybr yn dod yn bwysicach (37) **C25b.** Pam hynny?* RHYBUDD - maint sylfaen isel

# Ansawdd y llwybr



Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path


LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

djs research

# Canfyddiadau o agweddau o'r llwybr


Mae 66% o fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro yn rhoi sgôr gadarnhaol o ran cynnal a chadw dodrefn y llwybr. Mae 48% hefyd yn rhoi sgôr gadarnhaol ar gyfer arwyddion y llwybr. Fodd bynnag, dim ond 8% sy'n dweud bod hygyrchedd y llwybr yn 'dda', gyda 42% yn ei raddio'n 'wael', gan awgrymu y gellid gwneud gwelliannau yma. Dylid nodi bod llawer o ymatebwyr wedi dangos lefelau isel o ymwybyddiaeth o ansawdd yr agweddau hyn ar y llwybr, gan ddewis 'ddim yn gwybod' pan gawsant eu holi.




**Sylfaen:** Pob ymatebydd a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro (153) C20. Sut fyddech chi'n graddio pob un o'r agweddau canlynol?

# **Canfyddiadau o agweddau o'r llwybr** – ac eithrio ymatebion 'ddim yn gwybod'

Mae dileu ymatebion 'ddim yn gwybod' yn newid y sefyllfa ychydig. Y busnesau **sy'n ymwybodol** sydd fwyaf cadarnhaol o ran cynnal a chadw dodrefn y llwybr (75% da/da iawn). Mae hyn yn sylweddol uwch na'r sgoriau cyfartalog ar gyfer busnesau ar draws yr holl lwybrau gyda'i gilydd (63%). Er bod y ganran sy'n graddio hygyrchedd y llwybr yn 'dda' wedi codi i 11% (o 8% pan gynhwysir 'ddim yn gwybod'), mae 54% yn dal i sgorio'r agwedd hon yn 'wael'.




**Sylfaen:** Pob ymatebydd a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro, ac eithrio 'ddim yn gwybod'. Mae'r sylfaen yn amrywio yn ôl datganiad oherwydd bod ymatebion 'ddim yn gwybod' wedi'u dileu. **C20**. Sut fyddech chi'n graddio pob un o'r agweddau canlynol?

# yddo’r llwybr



Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path


NATIONAL TRAILS

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

djs research

# Ymwybyddiaeth Brandio

Mae gan 81% o fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro o leiaf rywfaint o ymwybyddiaeth o'r brandio. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r holl lwybrau gyda'i gilydd (68%). Fodd bynnag, pan ofynnwyd am fanylion logo'r llwybr, amlygodd yr ymatebion rywfaint o ddryswch a graddau amrywiol o ymwybyddiaeth. Er i 17% a 13% yn y drefn honno grybwyll bod y logo yn las neu'n wyn, dim ond 10% a soniodd am fesen, ac ni soniodd yr un ohonynt am gragen/cynffon draig. I 22% o fusnesau, maen nhw'n disgrifio brandio'r llwybr fel un sy'n dangos Pâl, gyda 7% arall yn sôn am Lurs – mae'n debygol bod y busnesau hyn yn gwneud sylwadau ar frandio Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn hytrach na Llwybr Arfordir Sir Benfro.





**Sylfaen**: Pob ymatebydd (153) **C10.** I ba raddau ydych chi'n ymwybodol o frandio Llwybr Arfordir Sir Benfro neu sut mae'n cael ei hyrwyddo?


# Ymwybyddiaeth hysbysebu

Mae 53% o fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro wedi gweld rhyw fath o gyhoeddusrwydd neu hysbysebu ar gyfer y llwybr yn y 12 mis diwethaf, +20% pwynt yn uwch na'r cyfartaledd. Facebook yw'r ffynhonnell a grybwyllir amlaf (31%), ac yna erthyglau mewn cylchgronau (21%).

**Y ganran (%) a welodd gyhoeddusrwydd neu hysbysebu**




**Lle gwelwyd cyhoeddusrwydd neu hysbysebu**




**Sylfaen:** Pob ymatebydd a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro (153) **C12.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw gyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth am Lwybr Arfordir Sir Benfro?
**Sylfaen:** Pob ymatebydd sydd wedi gweld neu glywed cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth (81) **C13.** A allwch ddweud wrthyf ble neu sut yr ydych wedi gweld cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth ar gyfer Llwybr Arfordir Sir Benfro? *Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos

# Canfyddiadau am hysbysebu

Mae 88% o'r rhai sy'n cofio unrhyw gyhoeddusrwydd yn credu bod cyhoeddusrwydd diweddar am y llwybr wedi bod yn gadarnhaol ar gyfer denu ymwelwyr (56% yn dda, 32% yn weddol). Yn y cyfamser, mae 75% yn ystyried y cyhoeddusrwydd hwn o leiaf rywfaint yn effeithiol o ran helpu neu roi budd i'w busnes neu sefydliad. Ychydig iawn o fusnesau sy'n gweld y cyhoeddusrwydd, yr hysbysebu neu'r wybodaeth y maent wedi dod ar eu traws yn wael ar draws unrhyw fetrig.

**"Sut fyddech chi'n graddio'r cyhoeddusrwydd, yr hysbysebu neu'r wybodaeth rydych chi wedi'u gweld neu eu clywed am y llwybr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o ran...?"**


| | Da | Gweddol | Gwael |
|---|---|---|---|
| **Amlder** | 44% (37% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 43% (36% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 6% (20% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) |
| **Effeithiolrwydd o ran denu ymwelwyr neu ddefnyddwyr i'r llwybr** | 56% (50% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 32% (28% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 6% (11% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) |
| **Effeithiolrwydd o ran helpu neu fod o fudd i lwyddiant eich busnes neu sefydliad** | 35% (29% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 40% (33% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 14% (19% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) |

**Sylfaen:** Pob ymatebydd sydd wedi gweld neu glywed cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth (81) **C14.** Beth yw eich barn am y cyhoeddusrwydd, yr hysbysebu neu'r wybodaeth a welsoch neu a glywsoch am Lwybr Arfordir Sir Benfro yn y flwyddyn ddiwethaf, o ran... ? *Sylwer – ni ddangosir ymatebion 'ddim yn gwybod'.


# Derbyn cyfathrebiadau uniongyrchol

Mae cyfran uwch na'r cyfartaledd o fusnesau wedi derbyn cyfathrebiadau uniongyrchol am Lwybr Arfordir Sir Benfro (18% o gymharu â 9% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd). Y cyfrwng mwyaf cyffredin ar gyfer derbyn cyfathrebiadau uniongyrchol yw e-bost (29%), ac yna Facebook (25%).

## Y ganran (%) a dderbyniodd cyfathrebiadau uniongyrchol




## Sut y derbyniwyd cyfathrebiadau uniongyrchol




**Sylfaen:** Pob ymatebydd a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro (153) **C15.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych yn cofio derbyn unrhyw gyfathrebiadau uniongyrchol am Lwybr Arfordir Sir Benfro? **Sylfaen:** Pob ymatebydd a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro sy'n cofio derbyn cyfathrebiadau uniongyrchol (28) *Noder – ni ddangosir ymatebion <5%.*RHYBUDD – maint sylfaen isel.

# Canfyddiadau o gyfathrebu uniongyrchol

O'r rhai sy'n cofio derbyn cyfathrebiadau uniongyrchol, mae 75% o'r farn bod amlder cyfathrebiadau uniongyrchol yn 'dda' neu'n 'weddol', gyda 18% yn ei ystyried yn wael. Yn yr un modd, mae 82% yn credu bod y cyfathrebiadau hyn yn weddol/dda o ran eu heffeithiolrwydd o ran denu ymwelwyr i'r llwybr, ac mae 78% yn eu gweld yn cael effaith gadarnhaol ar lwyddiant eu busnes, er bod 18% yn ystyried yr agwedd hon yn wael.

**"Sut fyddech chi'n graddio'r cyfathrebiadau uniongyrchol a gawsoch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf am Lwybr Arfordir Sir Benfro, o ran... ?" ****

| | Da | Gweddol | Gwael |
|---|---|---|---|
| **Amlder** | 46% (42% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 29% (36% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 18% (14% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) |
| **Effeithiolrwydd o ran denu ymwelwyr neu ddefnyddwyr i'r llwybr** | 50% (49% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 32% (27% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 4% (10% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) |
| **Effeithiolrwydd o ran helpu neu fod o fudd i lwyddiant eich busnes neu sefydliad** | 39% (40% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 39% (34% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) | 18% (18% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd) |


**Sylfaen:** Pob ymatebydd a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro sy'n cofio derbyn cyfathrebiadau uniongyrchol (28) *RHYBUDD – maint sylfaen isel **C16** Beth yw eich barn am y cyfathrebiadau uniongyrchol a gawsoch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf am Lwybr Arfordir Sir Benfro, o ran... ? Sylwer – ni ddangosir yr ymatebion 'ddim yn gwybod'.

# Hyrwyddo’r llwybr gan fusnesau

Mae busnesau ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro yn llawer mwy tebygol na’r cyfartaledd o grybwyll y llwybr yn benodol yn eu marchnata eu hunain (39% o gymharu â 19% ar gyfer yr holl lwybrau a arolygwyd). Mae'r un peth yn wir am hyrwyddo'r llwybr ar lafar (56% o gymharu â 36%).

*** Sylwch – cwestiwn amlddewis oedd hwn, sy’n golygu na fydd y bariau’n cyrraedd 100%.**

Cyfrifwyd canran y busnesau sy’n hyrwyddo’r llwybr mewn rhyw ffordd drwy dynnu’r ganran sy’n dweud nad ydynt yn ei hyrwyddo (27%) o 100.





**Sylfaen:** Pob ymatebydd a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro (153) C17. A ydych chi’n sôn am neu’n hyrwyddo Llwybr Arfordir Sir Benfro yn unrhyw un o’ch deunyddiau marchnata eich hun, er enghraifft ar eich gwefan neu sianeli cyfryngau cymdeithasol, neu wrth siarad â’ch cwsmeriaid?

# Hyrwyddo’r llwybr gan fusnesau

Mae Llwybr Arfordir Sir Benfro yn rhan bwysig o ddeunyddiau marchnata traean o’r busnesau sy’n cyfeirio at y llwybr yn eu deunyddiau marchnata (33%). Fodd bynnag, mae'n fwy tebygol bod busnesau'n cynnwys rhai manylion yn unig sy'n cyfeirio at y llwybr yn eu marchnata (39%).

**Amlygrwydd y llwybr mewn deunyddiau marchnata**





**Sylfaen:** Yr holl ymatebwyr sy'n crybwyll Llwybr Arfordir Sir Benfro yn eu deunyddiau marchnata (70) **C18**. Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio orau pa mor amlwg yw Llwybr Arfordir Sir Benfro yn eich marchnata?

# Hyrwyddo'r llwybr

Mae cyfran uwch na'r cyfartaledd o fusnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Sir Benfro yn nodi bod y llwybr yn cael ei hyrwyddo i'r graddau cywir fwy neu lai (35% o gymharu â 20%), tra bod 60% o fusnesau yn credu nad yw'r llwybr yn cael ei hyrwyddo ddigon.


**Yn gyffredinol, ydych chi'n meddwl bod y llwybr yn cael ei hyrwyddo…?**




**Sylfaen:** Pob ymatebydd a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro (510) **C19**. Yn gyffredinol, a ydych chi'n meddwl bod Llwybr Arfordir Sir Benfro yn cael ei hyrwyddo…?

# Annog ymweliadau


Yn anad dim, mae busnesau ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro yn cytuno, er mwyn annog mwy o bobl i ymweld, bod angen rhannu mwy o wybodaeth am gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus (78% yn cytuno). Mae 76% yn cytuno bod angen gwella darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus. Ystyrir mai cysylltiadau ffyrdd yw'r ffactor lleiaf pwysig i'w wella (mae 44% yn cytuno bod angen hyn).




**Sylfaen:** Pob ymatebydd a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro (153) **C21**. I ba raddau a ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod angen pob un o'r canlynol i annog mwy o bobl i ymweld â Llwybr Arfordir Sir Benfro? *Sylwer – nid yw labeli data <3% yn dangos er taclusrwydd.

# Gwella mynediad

Mae 36% o fusnesau yn argymell gwella cysylltiadau trafnidiaeth i wella mynediad i ymwelwyr. Dilynir hyn gan wybodaeth fwy cyffredinol am y llwybr.




"Fel rhywun sy'n byw 3 milltir i ffwrdd, alla i ddim cyrraedd adref ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae angen parhaus am gysylltiadau trafnidiaeth yn y parc neu'r ardal yn gyffredinol. Cael pobl leol i'r gwaith yn ogystal â'r rhai na allant fforddio car. Mae angen system drafnidiaeth gyhoeddus fwy hygyrch a fforddiadwy. Mae angen i'r llwybr edrych tuag allan nid i mewn."


"Mwy o feysydd parcio wedi'u neilltuo i gael mynediad i lwybr yr arfordir er mwyn lleddfu problemau mewn ardaloedd prysurach a mannau poblogaidd i dwristiaid."

"Rwy'n meddwl y byddai'n bwysig gwella pethau i bobl ag anableddau. Cenhadaeth amhosibl efallai, ond rwy'n meddwl mai dyna sydd ar goll yn y rhan yma o'r byd."

**Sylfaen:** Pob ymatebydd a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro **(153)** C22. Pa welliannau (os o gwbl) ydych chi'n meddwl sydd eu hangen i helpu mwy o gwsmeriaid neu ymwelwyr deithio o gwmpas neu gael mynediad i'r llwybrau?
*Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos.

# Gwybodaeth i gefnogi cwsmeriaid y busnes neu ddefnyddwyr y llwybr

Y mathau o wybodaeth a grybwyllir amlaf y mae busnesau yn dweud eu bod yn credu y byddai eu cwsmeriaid yn ei chael yn fwyaf defnyddiol mewn perthynas â Llwybr Arfordir Sir Benfro yw darparu teithlenni cerdded a gwybodaeth am gysylltiadau trafnidiaeth (**24%** ill dau).




**Ymatebion 'eraill'**


"Gwybodaeth am ei hanes; sut roedd pobl yn arfer byw."

"Sut mae'n teimlo dan draed? Bryniog, creigiog ac ati."

"Amserlenni'r llanw sy'n berthnasol i rannau penodol o lwybr yr arfordir (amserlenni llanw lleol)."

**Sylfaen:** Pob ymatebydd (1012) **C30**. Pa fath o wybodaeth ydych chi'n meddwl fyddai fwyaf defnyddiol i'ch cwsmeriaid neu ddefnyddwyr eraill Llwybr Arfordir Sir Benfro? *Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos.

# Casgliadau ac argymhellion



Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

djs research

## Casgliadau

**Dywed 71% o fusnesau fod gan Lwybr Arfordir Sir Benfro rywfaint o fudd i'w busnesau. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd (ar gyfer pob llwybr).**

Yn benodol, mae 62% o fusnesau'n cytuno bod presenoldeb y llwybr wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr â'u sefydliad. Mae 56% yn credu ei fod wedi cynyddu eu gwerthiant neu eu trosiant.

**Mae'r mwyafrif o fusnesau'n hapus gyda'r gwaith cynnal a chadw ar ddodrefn y llwybr**

Fodd bynnag, mae'r rhai a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Sir Benfro yn dangos pryder ynghylch y ddarpariaeth cludiant cyhoeddus ar gyfer teithio o amgylch y llwybr (44% gwael/gwael iawn) a'i hygyrchedd i'r rhai â symudedd cyfyngedig neu fygis (54% gwael/gwael iawn).

**Mae busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Sir Benfro yn llawer mwy tebygol na'r cyfartaledd o sôn yn benodol am y llwybr yn eu deunyddiau marchnata.**

Mae 56% hefyd yn sôn am y llwybr ar lafar.

## Argymhellion

**O ystyried bod Llwybr Arfordir Sir Benfro yn cael effaith gadarnhaol nodedig ar niferoedd ymwelwyr a gwerthiannau, efallai yr hoffech ystyried manteisio ymhellach ar hyn.**

Mae'r cynnydd canfyddedig uwch na'r cyffredin hwn yn cadarnhau arwyddocâd y llwybr a pha mor bwysig ydyw i'r llwybr gael ei gynnal, ei wella a'i hyrwyddo lle bo modd er mwyn dod â ffyniant pellach i'r ardal.

**Efallai y byddai'n fuddiol archwilio ffyrdd o wella trafnidiaeth gyhoeddus a gwella hygyrchedd o amgylch Llwybr Arfordir Sir Benfro, yn enwedig i'r rheini â symudedd cyfyngedig neu sy'n defnyddio bygis.**

Gallai hyn helpu i wneud y llwybr yn fwy croesawgar a phleserus i ystod ehangach o ymwelwyr.

**Gallai annog busnesau ger Llwybr Arfordir Sir Benfro i barhau i gynnwys y llwybr yn eu deunyddiau marchnata, tra'n darparu adnoddau hyrwyddo amrywiol iddynt, atgyfnerthu ymdrechion marchnata uniongyrchol a hyrwyddo ar lafar.**

# Casgliadau

**Nid yw 60% o fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro yn meddwl bod y llwybr yn cael ei hyrwyddo ddigon.**

Pan ofynnwyd mewn cwestiwn agored beth allai helpu mwy o gwsmeriaid neu ymwelwyr i deithio o gwmpas neu gael mynediad i'r llwybr (yn enwedig mewn perthynas â thrafnidiaeth), yr ymateb pennaf oedd gwella'r cysylltiadau trafnidiaeth (36%).

**Pan ofynnwyd pa wybodaeth y gellid ei darparu i gefnogi cwsmeriaid y busnesau neu ddefnyddwyr y llwybr, y prif argymhelliad oedd darparu teithlenni cerdded i gerddwyr.**

Mae 24% hefyd yn teimlo y byddai eu cwsmeriaid yn elwa o ragor o wybodaeth am gysylltiadau trafnidiaeth.

# Argymhellion

**Ystyriwch lansio ymgyrch farchnata wedi'i thargedu i godi proffil Llwybr Arfordir Sir Benfro, ynghyd â gwella cysylltiadau trafnidiaeth.**

Gallai'r ymdrechion hyn fynd i'r afael â phryderon am y lefel bresennol o hyrwyddo a helpu i ddenu mwy o ymwelwyr i'r ardal.

**Ystyriwch ddatblygu deunyddiau sy'n cyfuno teithlenni cerdded gyda gwybodaeth fanwl am gysylltiadau trafnidiaeth.**

Byddai darparu'r adnoddau hyn i fusnesau lleol yn helpu eu cwsmeriaid i gynllunio eu teithiau'n fwy effeithiol, gan sicrhau bod ganddynt y llwybrau cerdded a'r opsiynau trafnidiaeth sydd eu hangen ar gyfer profiad llyfn a phleserus.